| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 13 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | Brîff Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I fabwysiadu brîff yr ymchwiliad ac i ethol aelodau |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Craffwyd trefniadau diogelu mewn ysgolion yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Cafwyd trafodaeth anffurfiol ar ôl y cyfarfod o ran y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 5 Medi 2024, lle mynegwyd pryder gan yr aelodau oedd yn bresennol ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu o fewn ein hysgolion.

2. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025, ystyriwyd brîff drafft ar gyfer yr ymchwiliad craffu. Mae ymchwiliad craffu yn edrych i mewn i ddyfnder i bwnc gan gasglu tystiolaeth sydd yn cynnwys gwrando ar brofiadau pobl mewn cyfnod o tua 6 i 9 mis.

3. Mae gan y Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu), rôl i gynghori ar flaenoriaethu ymchwiliadau craffu a hynny yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael. Yng nghyfarfod y Fforwm ar 29 Ionawr 2025, rhoddwyd ystyriaeth i'r brîff drafft ac fe flaenoriaethwyd yr ymchwiliad.

4. Gweler ynghlwm i'r adroddiad, fel atodiad, brîff drafft yr ymchwiliad.

5. Y prif gwestiwn bydd yr ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

   'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?'

6. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried trefniadau cyfredol yr awdurdod o ran y maes diogelu mewn ysgolion a'r trefniadau mewn sampl o ysgolion. Bwriedir penderfynu ar yr ysgolion a fydd yn cael eu cynnwys yn y sampl yng nghyfarfod cyntaf yr ymchwiliad gan roi ystyriaeth i ffactorau megis gwahanol faint, gwahanol ardaloedd a chymysgedd o ysgolion trefol a gwledig. Rhoddir ystyriaeth yn ogystal i amserlen arolygiad Estyn yr ysgolion wrth ddewis ysgolion ar gyfer y sampl, yn enwedig o ran a ydynt wedi'u hasesu'n ddiweddar.

7. Bwriedir rhannu'r ymweliadau i ysgolion rhwng aelodau'r ymchwiliad. Pe byddai aelod o'r ymchwiliad yn llywodraethwr ar ysgol, ni fyddent yn ymweld â'r ysgol honno nac yn dylanwadu ar ganfyddiadau'r aelodau sydd wedi ymweld â'r ysgol.

8. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025, gwahoddwyd aelodau i fynegi diddordeb o ran bod yn aelodau o'r ymchwiliad. Daethpwyd i'r casgliad y dylid anfon e-bost at holl aelodau'r Pwyllgor gan ofyn i'r aelodau nodi ar ba gyrff llywodraethu ysgolion maent yn aelod ohono. Pwysleisiwyd yn yr e-bost y byddai rhaid i aelodau sicrhau eu bod wedi cwblhau'r 'Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion' er mwyn bod yn aelod o'r ymchwiliad.

9. Gall uchafswm o 5 aelod fod yn rhan o’r ymchwiliad ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i’r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol. O ystyried bod y mater yma yn y maes addysg, credid y byddai’n briodol bod un aelod cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig, yn aelod o’r ymchwiliad yn ogystal.

10. **Gofynnir i’r Pwyllgor:**
    **(i) fabwysiadu’r brîff.**
    **(ii) ethol aelodau i ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad.**